Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

| Penderfyniad ar gostau | Costs Decision |
| --- | --- |
| Ymweliad â safle a wnaed ar 19 Ebrill 2022 | Site visit made on 19 April 2022 |
| **gan I Stevens BA (Anrh) MCD MRTPI** | **by I Stevens BA (Hons) MCD MRTPI** |
| **Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru** | **an Inspector appointed by the Welsh Ministers** |
| **Dyddiad: 30.05.22** | **Date: 30.05.22** |

**Cais am gostau mewn perthynas ag Apêl Cyf: CAS-01418-G9M3C9**

**Cyfeiriad y safle: Eglwys Calvary, Cliff Terrace, Trefforest, Pontypridd, CF37 1RF**

**Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar y cais hwn am gostau i mi fel yr Arolygydd penodedig.**

- Gwneir yr apêl o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 78, 322C ac Atodlen 6.
- Gwneir y cais gan Mr Javid Ahmed am ddyfarniad llawn o gostau yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- Roedd yr apêl yn erbyn methiant y Cyngor i gyhoeddi hysbysiad o'i benderfyniad o fewn y cyfnod rhagnodedig ar gais am ganiatâd cynllunio i addasu eglwys i 8 fflat.

---

## Penderfyniad

1. Gwrthodir y cais am ddyfarnu costau.

## Rhesymau

2. Mae Adran Atodiad 12 'Dyfarnu Costau' y Llawlyfr Rheoli Datblygu ('yr Atodiad') yn cynghori, beth bynnag fo canlyniad apêl, ceir dyfarnu costau dim ond pan fydd un o'r partïon wedi ymddwyn yn afresymol a bod hynny wedi arwain at dreuliau diangen neu wastraffus i'r parti arall yn y broses apelio.

3. Mae'r ymgeisydd yn datgan bod y Cyngor wedi ymddwyn yn afresymol ar seiliau gweithdrefnol a sylweddol, gan gyfeirio at enghreifftiau a roddir ym mharagraffau 3.10(c), 3.11(a) a 3.11(b) yr Atodiad.

4. Cyflwynwyd y cais cynllunio ym mis Mawrth 2021 ac fe'i dilyswyd ym mis Ebrill 2021. Daeth y cyfnod statudol o 8 wythnos i ben ym mis Mehefin 2021. Deallir y cynhaliwyd cyfarfod ar y safle gyda'r Aelod lleol ym mis Gorffennaf 2021 ac yn dilyn hynny, rhoddwyd y cais gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ym mis Hydref 2021. Er yr argymhellwyd cymeradwyo'r cais, gyda swyddogion wedi dod i'r casgliad bod y pryderon a godwyd yn yr apêl flaenorol (cyfeirnod: APP/L6940/A/20/3259900) wedi cael sylw, roedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais. Gohiriwyd y cais tan gyfarfod nesaf y pwyllgor er mwyn caniatáu paratoi adroddiad yn amlygu cryfderau a gwendidau gwneud penderfyniad yn groes i

argymhelliad y swyddogion. Fodd bynnag, cyn y cyfarfod, gwnaed apêl yn erbyn methiant i benderfynu ar y cais.

5. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2015 yn caniatáu cyfnod “awdurdodaeth ddeuol” i’r awdurdod cynllunio lleol barhau i benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio yn ystod 4 wythnos gyntaf apêl a wneir yn erbyn methu penderfynu. Mae’r Cyngor yn datgan bod y terfyn amser ar gyfer adrodd yn ôl ar y mater i’r Aelodau wedi mynd heibio ac nid oeddent yn gallu penderfynu ar y cais yn ystod y cyfnod o awdurdodaeth ddeuol. Wedyn, adroddwyd ar y cais i’r Aelodau mewn cyfarfod pwyllgor ar 13 Ionawr 2022, lle penderfynwyd y byddai caniatâd cynllunio wedi’i wrthod yn groes i argymhelliad y swyddogion.

6. Er fy mod yn deall rhwystredigaeth yr ymgeisydd â’r oedi ymddangosiadol rhwng gwahanol gamau’r broses, mae’r Cyngor wedi darparu manylion yr amserlenni ac wedi esbonio pam yr aethpwyd â’r cais i’r pwyllgor yn hytrach na phenderfyniad gan swyddog dirprwyedig. Sylweddolaf y cafodd y Cyngor wybod bod yr apêl wedi’i chyflwyno ar yr un diwrnod. Serch hynny, nid yw’n afresymol aros am hysbysiad ffurfiol o’r apêl cyn symud ymlaen drwy’r cyfnod awdurdodaeth ddeuol. Yn anffodus, oherwydd yr oedi o ran hysbysu ffurfiol, nid oedd amserlenni’r Cyngor yn caniatáu i adroddiad gael ei gyflwyno i’r Aelodau mewn da bryd. Fodd bynnag, ni welaf fod y Cyngor wedi gweithredu’n afresymol yn ystod y broses hon, nac ychwaith fod yr ymddygiad wedi arwain yr ymgeisydd i fynd i gostau diangen neu wastraffus.

7. Gan droi at y seiliau sylweddol dros apelio, mae’r ymgeisydd yn datgan nad oedd rheswm da i’r Cyngor oedi neu wrthod caniatâd cynllunio, gan gyfeirio at gyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref 2021, ac ychwanegu nad oedd tystiolaeth berthnasol neu argyhoeddiadol i gefnogi ei resymau dros wrthod.

8. Mae paragraff 3.8 yr Atodiad yn nodi, “Pan fo awdurdod cynllunio lleol wedi gwrthod, neu gynnig gwrthod, cais nad yw’n unol â pholisi cynllun datblygu perthnasol ac nad oes ystyriaethau o bwys yn nodi y dylid fod wedi rhoi’r caniatâd, fel rheol, ni ddylai fod unrhyw sail i ddyfarnu costau yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol am wrthod cais yn afresymol.”

9. Penderfynodd yr aelodau wrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddogion oherwydd byddai’r cynnig yn cynrychioli gorddatblygiad o’r safle, gan arwain at unedau preswyl cyfyng a llety byw o safon wael er anfantais i amodau byw preswylwyr yn y dyfodol.

10. Mae paragraff 3.9 yr Atodiad yn cynghori, “Nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn rhwym i fabwysiadu, neu gynnwys yn rhan o’u hachos, y cyngor proffesiynol neu dechnegol a roddwyd gan eu swyddogion eu hunain neu a gafwyd gan ymgyngoreion statudol. Fodd bynnag, mae disgwyl iddynt ddangos bod ganddynt seiliau cynllunio rhesymol dros benderfynu yn groes i’r cyngor hwnnw a’u bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth berthnasol i gefnogi eu penderfyniad. Os byddant yn methu gwneud hynny, mae’n bosibl y caiff costau eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod.”

11. Mae’r ymgeisydd wedi esbonio sut oedd y cynnig wedi ceisio goresgyn y rhesymau dros wrthod yr apêl flaenorol, wrth ddiwygio gosodiad fflat 8 gan symud yr ystafell gegin a lolfa ymhellach ar hyd yr adeilad ac i ffwrdd oddi wrth y strwythur parcio ceir arfaethedig. Er bod swyddogion yn cytuno bod y cynnig yn dderbyniol, mae gan Aelodau’r pwyllgor cynllunio hawl i wneud penderfyniadau sy’n groes i argymhelliad y swyddogion. Serch hynny, mae’n bwysig bod y rhesymau dros gymryd safbwynt i’r gwrthwyneb yn glir ac yn gynhwysfawr. Yn yr achos hwn, mae Datganiad Apêl y Cyngor yn nodi’r rhesymau dros wrthod, gan gyfeirio at yr olygwedd lai ffafriol a geir mewn fflatiau islawr fel rhan o addasu eiddo mwy o faint. Mae’r Datganiad Apêl yn cyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mabwysiedig y Cyngor: Datblygu Fflatiau – Addasiadau ac Adeiladau Newydd, a

gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015. Mae'r rheswm arfaethedig dros wrthod yn cyfeirio at bolisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Rwy'n sylweddoli y ceir rhywfaint o oddrychedd wrth asesu effaith cynigion ar amodau byw preswylwyr yn y dyfodol. Er bod fy mhenderfyniad yn wahanol i un y Cyngor, o ystyried y polisi a'r CCA, nid wyf o'r farn bod y Cyngor wedi gweithredu'n afresymol yn y ffordd y mae wedi ymdrin â'r dadleuon sylweddol dros y cynnig ac wrth ddod i'w benderfyniad.

12. Felly, rwyf o'r farn na ddangoswyd ymddygiad afresymol a arweiniodd at gostau diangen neu wastraffus, fel y disgrifir yn yr Atodiad yn Adran 12 y Llawlyfr Rheoli Datblygu. Fel y cyfryw, ni ellir cyfiawnhau dyfarnu costau yn yr achos hwn.

**Casgliad**

13. Gwrthodir y cais am gostau.

*I Stevens*

Arolygydd